

Cronfa Integreiddio Rhanbarthol - Proffil dwy dudalen

Cadw'n Iach Gartref (PR012)

Mae'r proffil hwn yn dangos y manylion lefel uchel sy'n ymwneud â'r cynnig blynyddol, monitro a gwerthuso, gan gynnwys dangosyddion, mesurau perfformiad, gwariant a'r effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth.

Trosolwg/crynodeb o'r rhaglen

Menter CT a ddyluniwyd i gefnogi oedolion sy'n wynebu argyfyngau neu newidiadau aciwt mewn gallu yw SW@H. Yn bennaf, mae'n cynorthwyo unigolion oedranus bregus â phroblemau iechyd cymhleth, cwmpadau aml heb esboniad, heriau aml-fferylliaeth, a chyflyrau anfalaen eraill. Mae'r rhaglen yn pwysleisio llesiant cyfannol a chynlluniau gofal personol i wella sefydlogrwydd cleifion a'u gwelliant gartref. Mae'r Gwasanaeth Iechyd yn y Cartref yn darparu asesiadau nyrsio rhagweithiol, gwrthfotigau IV, gweinyddu hylif isgroenol, a chynllunio gofal ymlaen llaw i atal argyfyngau iechyd a rheoli cyflyrau cronig.

Mae'r Gwasanaeth Cefnogi Meddyginiaeth yn y Cartref yn canolbwyntio ar hyfforddi gweithwyr gofal cartref mewn gweinyddu meddyginiaeth, rheoli atgyfeiriadau cleifion, a gweithredu pecynnau cynhwysfawr Cymorth Meddyginiaethau yn y Cartref.

Mae Timau mewn Ysbytai yn gweithredu ar fodel "rhyddhau i asesu", gydag aseswyr dibynadwy yn gweithio'n agos gyda gwasanaethau cymunedol i atal derbyniadau diangen i'r ysbyty a sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau'n brydlon.

Mae'r Gwasanaeth Cymorth yn y Cartref yn cynnwys ymweliadau cartref rheolaidd, rheoli meddyginiaeth, ymarferion adsefydlu, a chydgyssylltu â darparwyr gofal iechyd eraill.

Mae'r rhaglen, a ddarperir gan dîm amlddisgyblaethol o sectorau iechyd, gofal cymdeithasol, a'r trydydd sector, hefyd yn cydweithio â gwasanaethau arbenigol. Mae'r dull integredig hwn yn sicrhau gofal cynhwysfawr o ansawdd uchel, gan alluogi cleifion i gynnal eu hiechyd a'u hannibyniaeth gartref.

Cynnyrch RIF:

Model gofal sylfaenol:

Atal a Chydlynu Cymunedol

Galluogwyr:

Cynllunio a chomisiynu integredig

Hyrwyddo'r sector gwerth cymdeithasol

Datblygu ac integreiddio'r gweithlu

Grŵp/iau poblogaeth â blaenoriaeth:

Pobl hŷn

Dull rhanbarthol:

Cyflwynir y rhaglen gan Fwrdd Iechyd Prifysgol CTM, CauBS RhCT a MT a phartneriaid trydydd sector ac ar hyn o bryd mae'n gweithredu yn RhCT a Merthyr Tudful yn unig.


Blaenoriaeth (Cysylltiedig â'r Cynllun Ardal)

Bydd pobl hŷn a phobl â dementia yn mwynhau iechyd a llesiant da ac yn cael eu cefnogi i fyw'n annibynnol yn hirach.

Bydd pobl hŷn a phobl â dementia yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i aros yn eu cartref cyhyd â phosibl, neu i symud yn ôl adref cyn gynted â phosibl ar ôl cael eu derbyn i'r ysbyty.

Bydd pobl â dementia a'u teuluoedd yn cael mynediad at y wybodaeth, y cyngor a'r arweiniad sydd eu hangen arnynt.

Gwariant prosiect – £1,830,269 (BA 2023/24)



Prosiectau/partneriaid sy'n cefnogi cyflawni:

BIP CTM

CBS RhCT

CBS MT

Interlink

VAMT

Sector Gwirfoddol


Crynodeb o wariant:

Mae'r cyllid a dderbynnir gan y Gronfa yn gyfraniad tuag at ddarparu ystod fwy o wasanaethau cymorth adsefydlu sy'n gweithredu ar draws y rhanbarth cyfan. Defnyddiwyd y cyllid a ddarparwyd yn ystod 2023/24 yn llawn yn ystod y flwyddyn.


Allbynnau rhaglen (fffigurau blynyddol):
(gan gynnwys mesurau canlyniad ychwanegol)

Nifer yr atgyfeiriadau	3262
Nifer y bobl a gefnogir	2512
Nifer yr oriau ymyrraeth therapi a ddarparwyd	3873
Nifer yr oriau ymyrraeth gweithwyr cymdeithasol a ddarparwyd	4544
Nifer yr apwyntiadau gyda phobl	1449
Nifer y lleoliadau mewn cartrefi gofal a waned	196
Nifer y pecynnau gofal / cymorth a ddarparwyd	117

Programme outcomes: (primary measures)
(Numbers)



Canlyniadau rhaglen: (mesurau sylfaenol)



Trosolwg perfformiad: (crynodeb)

Dangosodd y rhaglen effaith sylweddol ar draws sawl maes. Gyda 3,262 o atgyfeiriadau a chymorth wedi'u darparu i 2,512 o unigolion, mae ymyriadau fel therapi ac oriau gweithwyr cymdeithasol wedi hwyluso canlyniadau cadarnhaol lluosog. Yn nodedig, llwyddwyd i osgoi 725 o dderbyniadau i'r ysbty, gyda 1,078 o unigolion yn cael cymorth i ddychwelyd adref o'r ysbty. Roedd cymorth hefyd wedi galluogi 772 o unigolion i fyw'n annibynnol gyda 279 yn derbyn cymhorthion ac addasiadau. Yn ogystal, mae 307 o atgyfeiriadau i wasanaethau eraill yn pwysleisio'r cymorth cynhwysfawr a gynigir. Mae canlyniadau cadarnhaol eraill yn amlwg mewn 1,690 o drafodaethau "Beth sy'n Cyfri" a 210 yn nodi gwelliannau mewn lles. Mae'r dull cyfannol hwn nid yn unig yn cefnogi anghenion iechyd uniongyrchol ond hefyd yn meithrin annibyniaeth ac ansawdd bywyd hirdymor, gan adlewyrchu effeithiolrwydd mewn gwasanaethau gofal a chymorth yn y gymuned

Effaith y rhaglen (ansoddol):

Llai o dderbyniadau i'r ysbty: Trwy gefnogi unigolion i reoli eu hiechyd yn y cartref yn effeithiol, mae'r rhaglen yn cyfrannu at leihau trosglwyddiadau a derbyniadau diangen i'r ysbty, sydd yn ei dro yn gwella parhad gofal a chanlyniadau iechyd cyffredinol.

Effaith gymunedol gydweithredol: Mae partneriaethau gyda gwasanaethau cymdeithasol a rhwydweithiau cymorth eraill yn gwella effeithiolrwydd y rhaglen, gan sicrhau gofal cynhwysfawr a chydlynol sy'n diwallu anghenion amrywiol y cyfranogwyr.

Grymuso cleifion yn well: Trwy gyfrwng trafodaethau "Beth sy'n Cyfri", mae'r rhaglen yn grymuso unigolion i fynegi eu hoffterau a'u nodau mewn gofal iechyd, gan feithrin ymdeimlad o reolaeth ac urddas wrth wneud penderfyniadau.

Adborth a thystebau cadarnhaol: Mae adborth gan bobl yn gyson yn amlgu boddhad gyda chefnogaeth y rhaglen.

Gwell ansawdd bywyd: Mae pobl yn adrodd am well llesiant o ganlyniad i gymorth wedi'i deilwra, gan gynnwys ymyriadau sydd wedi'u hanelu at hybu annibyniaeth, sefydlogrwydd ariannol, a diogelwch yn y cartref. Mae'r dull cyfannol hwn yn mynd i'r afael ag anghenion corfforol a llesiant.

Argymhellion:

Parhau i ariannu'r Rhaglen.

Mae'r rhaglen wedi dangos tystiolaeth o ganlyniadau cadarnhaol i'r bobl y mae'n eu cefnogi a'u gofaliwyr / teulu.

Mae'r rhaglen gyfan yn elfen allweddol o'r RIF a bydd yn rhan o gynlluniau'r dyfodol ynghylch darparu'r 2 lwybr newydd. Bydd yn rhan annatod o gefnogi pobl i aros yn annibynnol, yn ddiogel gartref ac adref o'r ysbty ar ôl cael eu derbyn i'r ysbty.

Ystyriaethau ychwanegol:

Buddsoddiad parhaus: Dylid cael cyllid parhaus ar gyfer gwasanaethau craidd fel asesiadau amlddisgyblaethol, ymyriadau yn y cartref, a chymorth ar gyfer byw'n annibynnol.

Technoleg: Dylid buddsoddi mewn seilwaith technoleg ar gyfer cadw cofnodion iechyd integredig a rhannu data ar draws gwasanaethau. Mae hyn yn gwella cydlynad, effeithlonrwydd, a phenderfyniadau sy'n cael eu gyrru gan ddata er mwyn sicrhau'r gofal mwyaf posibl.

Ehangu rhwydweithiau allgymorth ac atgyfeirio: Dylid ehangu ymdrechion allgymorth a chryfhau rhwydweithiau atgyfeirio gyda phartneriaid cymunedol. Mae hyn yn gwella cyrhaeddiad y rhaglen a'i gallu i ateb y galw cynyddol.